# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## 15 Ionawr 2016

## Grŵp Trawsbleidiol Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

1. **Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi.**

**Julie Morgan AC, Cadeirydd**

**Bethan Jenkins AC, Is-gadeirydd**

**Mick Antoniw AC**

**Peter Black AC**

**Mike Hedges AC**

**Rhodri Glyn Thomas AC**

**Joyce Watson AC**

**Darren Williams (PCS), Ysgrifennydd**

**Shavanah Taj, Alison Burrowes, Siân Wiblin (PCS)**

2. **Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf.**

**Cyfarfod 1.**

*Dyddiad y cyfarfod:* **21 Ebrill 2015**

*Yn bresennol:* **Julie Morgan AC (Cadeirydd)**
**Bethan Jenkins AC**
**Ryland Doyle (yn cynrychioli Mike Hedges AC)**
**Mark Major (yn cynrychioli Suzy Davies AC)**
**Nancy Cavill (staff cymorth Julie Morgan AC)**

**Shavanah Taj (Ysgrifennydd PCS Cymru)**
**Siân Wiblin (Swyddog Diwydiannol PCS)**
**Darren Williams (PCS – Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol)**

*Crynodeb o'r materion a drafodwyd:* **Bu'r Grŵp yn trafod anghydfod parhaus yr Undeb â Llywodraeth y DU a phenderfyniad nifer o adrannau yn Whitehall i ddileu cyfleusterau ar gyfer didynnu tâl aelodaeth undeb o gyflogau; materion amrywiol yn ymwneud â chyflog a staffio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru; anghydfod posibl yng nghanolfan gyswllt y DVLA ynglŷn â dileu taliadau premiwm ar gyfer gweithio yn ystod y penwythnos; a phryderon ynghylch dyfodol y swyddfeydd treth yn Abertawe a Wrecsam.**

<u>Cyfarfod 2.</u>

*Dyddiad y cyfarfod:* **11 Tachwedd 2015**

*Yn bresennol:* **Julie Morgan AC**
**John Griffiths AC**
**Bethan Jenkins AC**
**Helen West, Swyddfa Julie Morgan AC**
**Ioan Bellin, Swyddfa Simon Thomas AC**
**Darren Williams (PCS – Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol)**

*Crynodeb o'r materion a drafodwyd:* **Bu'r grŵp yn trafod ymdrechion parhaus yr Undeb i ymateb i benderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu cyfleusterau ar gyfer didynnu tâl aelodaeth undeb o gyflogau a'r problemau a achosir gan y Bil Undebau Llafur sy'n mynd drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd; yr anghydfod cyflog parhaus yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru; y cyhoeddiad disgwyliedig ynglŷn â chau swyddfeydd treth yng Nghymru ac mewn mannau eraill; adolygiad o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gan Syr Charlie Bean; a materion o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chysylltiadau diwydiannol a lleoliad gwaith o amgylch Cymru.**

<u>Cyfarfod 3 (Cyfarfod Blynyddol).</u>

***Dyddiad y cyfarfod:* 12 Ionawr 2016**

*Yn bresennol:* **Julie Morgan AC**
**Bethan Jenkins AC**
**Helen West, Swyddfa Julie Morgan AC**
**Ioan Bellin, Swyddfa Simon Thomas AC**
**Marianne Owens (Aelod o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol y PCS)**
**Shavanah Taj (Ysgrifennydd PCS Cymru)**
**Darren Williams (PCS – Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol)**

*Crynodeb o'r materion a drafodwyd:* **Cafodd Julie Morgan ei hail-ethol yn gadeirydd y Grŵp, ac etholwyd Bethan Jenkins yn is-gadeirydd, yn lle Rhodri Glyn Thomas. Adolygodd y cyfarfod weithgareddau'r Grŵp yn ystod y flwyddyn flaenorol a thrafodwyd sut y gallai weithredu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cafwyd cyfarfod busnes arferol ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle trafodwyd y materion canlynol: y bwriad i gau swyddfeydd treth a llysoedd barn yng Nghymru; yr anghydfod parhaus yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau; goblygiadau Cyllideb Ddrafft Cymru i gyrff datganoledig; bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Gofrestrfa Tir; a thoriadau mewn swyddi yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Dim.**

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 15 Ionawr 2016

## Grŵp Trawsbleidiol Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

### Julie Morgan AC, Cadeirydd

### Darren Williams (PCS), Ysgrifennydd

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau.** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafwyd gan y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, fel lletygarwch.**<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan y PCS. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 21 Ebrill 2015 | Darparwyd y bwffe gan Charlton House. | £64.44 |
| 11 Tachwedd 2015 | Darparwyd y bwffe gan Charlton House. | £64.44 |
| 12 Ionawr 2016 | Darparwyd y bwffe gan Charlton House. | £64.44 |
| | **Cyfanswm y costau** | £193.32 |